# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 8

AELODAU: TALIADAU A PHENSIYNAU

*Gorfodi*

### 156 Cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion

(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad sy'n ymwneud â materion perthnasol a osodir arno gan y Mesur hwn neu yn rhinwedd y Mesur hwn, cânt gyfarwyddo'r awdurdod i gydymffurfio â'r gofyniad.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—

- (a) y gofyniad;
- (b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd;
- (c) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod eu cymryd;
- (d) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymryd y camau.

(3) Gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan yr adran hon drwy orchymyn mynnu ar gais Gweinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 156 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**I2** A. 156 mewn grym ar 31.8.2011 at ddibenion penodedig gan O.S. 2011/2011, **ergl. 2(o)**

**I3** A. 156 mewn grym ar 30.4.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/1187, **ergl. 2(2)(j)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/04/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Gorfodi.